

CYNGOR BRO LLANLLWNI

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 14 Tachwedd 2016 am 8.00yh.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Roedd yn bleser gan y Cynghorwyr longyfarch Alwena Mair Owen ar ei llwyddiant yng Ngŵyl Gerdd Dant Llŷn ac Eifionydd yn ddiweddar.

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod blaenorol.

COMISYNYDD YR HEDDLU

Rhodddwyd croeso cynnes i Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu, i'r cyfarfod. Soniodd am gwmpas ei gyfrifoldebau a thrafodwyd plismona yn y pentref yn gyffredinol ac am y parcio digymwynas ar y palmant ger garej Celtic Classics. Roedd Dafydd Llywelyn yn addo ymchwilio i'r pwnc.

HEWL CWMCAREDIG

Roedd y Clerc wedi derbyn llythyr o gwyn ynglŷn â hawliau ar yr hewl. Roedd y Clerc wedi ymateb cyn y cyfarfod i gadarnahu y byddai'r pwnc yn cael ei drafod yn y cyfarfod hwn. Roedd un o'r cynghorwyr wedi derbyn galwad ffôn gan Mrs Doreen Morris wedyn yn dweud bod y broblem wedi ei datrys bellach.

CYFLWYNAID GAN LLYWELYN RHYS O GWMNI RES

Yn dilyn y cyflwynaid a gafwyd gan y cwmni ar 11 Gorffennaf 2016, roedd y Clerc wedi ymateb gan holi am atebion i'r cwestyniau a nodwyd yng nghyfarfod mis Gorffennaf, ond roedd heb dderbyn ymateb. Penderfynwyd bod y Clerc yn cysylltu eto.

Y CAE CHWARAE

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae. Yr oedd Hefin Harries, Maenonni, wedi torri clawdd y Cae Chwarae eleni. Roedd Linda Evans wedi derbyn copi o'r adroddiad am yr adnoddau ar y Cae Chwarae a byddai'n danfon copi i'r Clerc.

Roedd y Cyngor wedi derbyn llythyr oddi wrth berchnogion y tir oedd yn ffinio â'r Cae Chwarae yn gofyn a fyddai diddoreb gan y Cyngor Bro i brynu'r tir ffiniol. Roedd y Cynghorwyr yn awyddus i ystyried a fyddai'r Clerc yn ymateb trwy lythyr i'r perchnogion.

YSGOL SUL YR EGLWYS, LLANLLWNI

Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â Meinir Evans o Ysgol Sul yr Eglwys i brynu adnoddau i'r plant, am bris rhesymol.

CWARE MOWNT

Bin Sbwriel: Cadarnhawyd bod bin wedi cael ei osod yn y lleoliad hwn.

GWEFAN LLANLLWNI

Roedd adroddiad o gyfarfod mis Medi ar y wefan, ac wedi ymddangos yn Clonc a Clecs Bro Cader.

AGENDA

Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Y FANTOLEN

Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

YMGYNGHORIAD FFONAU CYHOEDDUS BT

Derbyniwyd rhestr o ffonau talu cyhoeddus a chofnod o sawl gwaith roedden nhw wedi cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

CEISIADAU

Penderfynwyd cefnogi Clwb Hwyl Ysgol Llanllwni.

Penderfynwyd ystyried gweddill y ceisiadau ym mis Ionawr.

Y GINIO FLYNYDDOL

Penderfynwyd y byddai'r ginio yn cael ei chynnal ar 20 Ionawr yn y Talardd.

CYSGODFEYDD BWS

Roedd wedi dod i sylw'r Cynghorwyr bod angen golchi a glanhau y Cysgodfannau Bysiau o fewn y pentref. Byddai Linda Evans yn cysylltu â'r Cyngor Sir. Nodwyd bod gwasanaeth bws a fyddai'n teithio o'r pentref i Gaerdydd wedi dechrau yn ddiweddar.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 09 Ionawr 2017 am 8.00yh.